## CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Rhagfyr 5, 2023, yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr – Maer
Y Cynghorydd Bob Gunton – Dirprwy Faer
Y Cynghorwyr Peter Jones; Dyfrig Siencyn; Branwen Rhys Dafydd; John Raghoobar; Ray Peters; Peter Barnes; John Cadwaladr; Jo Checkley; Sion Edwards; Nia Evans, Richard Jones.
Mr Rhys Williams – Clerc
1 x Aelod o'r Cyhoedd. – Annabel Louise a Penny Redman
**Hefyd Yn Bresennol:** PCSO Gareth Jones

**C56.2023/2024.1 SESIWN CYHOEDDUS**

Am gyfnod o hyd at 10 munud ar gychwyn y cyfarfod, bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i gwestiynu'r Cyngor ar faterion lleol . Bydd cwestiynau yn cael eu hateb gan y Cadeirydd, cadeirydd y pwyllgorau sefydlog neu Glerc i'r Cyngor. Bydd y swyddogion yma gyda'r hawl i oedi ymateb tan y cyfarfod dilynol er mwyn medru derbyn cyngor neu ymgymryd ag ymchwiliad. Yn ystod yr amser yma, bydd cwestiynau sydd yn dal heb ymateb o gyfarfodydd blaenorol yn cael eu cyflwyno.

**Cyflwynwyd diweddariad oddi wrth aelodau o'r cyhoedd parthed y bwriad i ail sefydlu carnifal i'r dref. Nodwyd y bydd y digwyddiad yn cymeryd lle ar Mai 11, 2024 ac eisoes mae £400 wedi cael ei gasglu tuag at y fenter.**

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r ymdrech yma mewn unrhyw ffordd posib ac i'r trefnwr - Annabel Louise gyflwyno cais am gymorth ariannol i'r Cyngor Tref maes o law. Eglurwyd hefyd y bydd yswiriant cyhoeddus ac Asesiad Risg ai angen ganddynt.

**Gofynnwyd hefyd am wirfoddolwyr o'r Cyngor Tref i helpu gyda stiwardio ar y diwrnod**

**C57.2023/2024.2 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Heilyn Williams

**C58.2023/2024 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:
Y Cyng Ywain Myfyr, Sion Edwards, Bob Gunton
Rheswm: Aelodau o Glwb Peldroed Dolgellau. Nad oedd yr aelodau uchod yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod y trafodaeth – rhif cofnod **C60.2023/2024.1**

**C58.2023/2024.2 PCSO GARETH JONES – HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

**Cyflwynwyd:**Adroddiad a thrafodaeth ar materion lleol yn ymwneud a gwaith yr Heddly yn y gymuned lleol, megis:
500 o ddigwyddiadau o droseddion yn ystod y 6 mis diwethaf, y rhan helaeth yn fan droseddau
Cynllun o ymgysylltu yn y gymuned, gan gynnwys ysgolion,ac ymweliad i Ganolfan Oedolion yn Dolfeurig
Cadarnhawyd nad oes unrhyw bosibilrwydd o oprsaf yr Heddlu yn y dref yn cau ond nodwyd nad oes gwasanaeth 'Custody' yn yr orsaf bellach

Yn ystod y trafodaethau a chwestiynnu cyfeiriwyd at :
Meysydd sydd dan sylw CCTV yn y dref
Deddf cyflymdra 20 MYA
Gwaith Ymgysylltu – Heddlu gyda adnodd ariannol bach o'r enw 'PAC Trust' sydd yn medru helpu gyda grantiau bychain i ddigwyddiadau cymunedol

**Diolchwyd i PCSO Gareth Jones am fynychu y cyfarfod**

**C.59.2023/2024** **I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR TACHWEDD 7, 2023.**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod, gyda 1 x addasiad sef y bod y Cyng Dyfrig Siencyn a Branwen Rhys Dafydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod

**C60.2023/2024** **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1. **Les ar gyfer y Cae Pêl droed i'r Clwb Pêl droed - Y Cyng Nia Evans yn Cadeirio**
   **Cyflwynwyd:** Ail drafodaeth ynglyn a manylion y Les dan sylw
   **Penderfynwyd:** Addasu ffigwr y rhent sy'n daladwy megis rhent 'peppercorn ' o £1 y flwyddyn ac i gytuno i addasu geirfa elfennau o'r Les o'r fersiwn gwreiddiol

2. **Gardd Bywyd Gwyllt Felin Uchaf**
   **Cyflwynwyd:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn nawr mewn sefyllfa i ddarparu cytundeb / trwydded rhwng y Cyngor a'r gwirfoddolwyr newydd. Y Cytundeb yma bellach wedi ei arwyddo a bydd copi yn cael ei drefnu i'r Cyngor Tref.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

3. **Llwybr Pen y Banc**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn nodi bod sylw i'r mater yma ar waith. Trafodaethau gyda'r swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ddilyn.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

4. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Asdroddiad gan y Cyng Dyfrig Siencyn. Nawr yn disgwyl adborth pellach oddi wrth y Parc cenedlaethol.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

5. **Digwyddiad Diweddar Moto Camps – Ardal Pencefn**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn sef dim ymgynghori / trafodaeth pellach ar y funud gan nad oedd cwynion pellach wedi dod i'r amlwg.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

6. **Llwybr A470 rhwng Cwt Gwyn / Coed Ffridd Arw i Tanyfron**
   **Cyflwynwyd:** Adroddiad pellach gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn ar y mater uchod.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth ond i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn bwysleisio ar ystyriaeth i gyfyngiad cyflymdra o 30 mya mewn darnau o'r rhediad yma ac i annog sefydlu

arwyddion rhybudd mewn darnau priodol yn nodi ‘ Peryg – Pobol yn y ffordd ‘

7. **Problemau Parcio rhwng Banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn bod y swyddog priodol o Gyngor Gwynedd yn cynnig sefydlu 1 x llinell melyn dwbl yn yr ardal uchod i oresgyn y broblem yma. Proses o ymgynghori ar y gweill
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

8. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
**Cyflwynwyd: Diweddariad ar sawl pwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

**i)** **Trefnu Ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos Penodol i’r Cyngor:**
**Cyflwynwyd:** Adborth gan aelodau yn egluro y bod Byrddau arddangos digidol yn gostus ac yn anhebig y buasai cyllideb y Cyngor yn medru eu sefydlu a’I cynnal.

**Penderfynwyd:** Cytuno I ymchwilio / gweithredu ar sefydlu hysbysfwrdd traddodiadol ger y Llyfrgell Rhydd. Y Clerc I ddanfon engrhaifft dan sylw I’r Parc Cenedlaethol o safbwint unrhyw anghenion cynllunio.

**ii)** **Arwyddion Gefeillio Newydd**
**Cyflwynwyd:** Trafodaeth am ychwanegu 2 x arwydd gefeillio pellach ar sail y dyluniad diwygiedig sydd wedi ei sefydlu ar y 2 x arwydd newydd eisoes.
**Penderfynwyd**: Y Cynghorydd Peter Barnes ac Ywain Myfyr i ymchwilio costau cychwynnol am hyn, ond hefyd i ymchwilio i mewn i dderbyn caniatâd i’w ail sefydlu gan nad ydynt wedi bod mewn bodolaeth ar y safleoedd gwreiddiol am flynyddoedd maith.

**C61.2023/2024 SEFYLLFA ARIANNOL, / ADBORTH O ARCHWILIAD ARCHWILIO CYMRU AR GYFRIFON Y CYNGOR AR GYFER 2022-2023**

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a chadarnhau'r taliadau canlynol:

| **Dyddiad** | **Rhif Siec** | **Enw** | **Disgrifiad** | **Swm £** |
|---|---|---|---|---|
| 13.11.2023 | 104132 | Sign and Slate Creation | **Siec wedi ei ganslo – disrifiad anghywir** | 0.00 |
| 13.11.2023 | 104133 | RBL Poppy Appeal | Torch y Cyngor - Gwasanaeth Coffa 2023 | 25.00 |
| 13.11.2023 | 104134 | Clwb Rygbi Dolgellau | Cyfraniad – Cinio Nadolig – Pobol Bregus | 1000.00 |
| 14.11.2023 | 104135 | Inland Revenue | PAYE – Mis 7 | 112.59 |
| 15.11.2023 | 104136 | Rhys Williams | Cyflog Tachwedd | 483.56 |
| 24.11.2023 | 104137 | Sign Creation | Costau Arwyddion Gefeillio x 2 | 330.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 01.12.2023 | 104138 | Geiriau Gwyn | Cyfieithu anfoneb 2551 | 239.76 |
| 01.12.2023 | 104139 | Vision ICT | Webinar - cyfleion mynedid digidol | 30.00 |
| 02.12.2023 | 104141 | RJ Electrics | Goleuadau Nadolig 2023 | 4664.40 |

**CYFLOG Y CLERC:** Derbyniwyd manylion o setliad Cyflog Cenedlaethol drwy NALC ac Unllais Cymru, sef cynnydd o £1 awr ar graddfa'r clerc ( Megis SCP 17 ) yn ol ddaladwy I Ebrill 2023
**Pendwerfynwyd:** Mabwysiadu y cynnydd yma

**ADBORTH O ARCHWILIAD ARCHWILIO CYMRU AR GYFRIFON Y CYNGOR AR GYFER 2022-2023 - Diweddariad**

**Cyflwynwyd:** Trafodaeth ar un sylw oddiwrth Archwilio Cymru, megis pryder ynglyn a'r nifer o gyfrifon banc sydd gan y Cyngor (megis 4)

**Penderfynwyd:**Lleihau y nifer o gyfrifon o 4 i 2 megis 1 x Cyfrif Busnes ac un Cyfrif Cadw i sicrhau elfennau o llog dros flwyddyn.
.

**C62.2023/2024 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. **Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref**

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** (Y Maer) **GWELER ADRODDIAD YSGRIFENEDIG I'W GYNNWYS YMA**

ii) **Y Cynghorydd Bob Gunton** - Gwaith cynllunio gyda goleuadau Nadolig. Goleuadau am fod ymlaen ar Dachwedd 24, 2023.

**Cyflwynwyd:**adborth ar sefyllfa yr offer goleuadau nadolig. Eglurwyd nad oes bellach offer sbar ar ol a chyflwynwyd opsiynnau ar y ffordd ymlaen i'r dyfodol. Yn dilyn trafodaeth ar y mater,
**Penderfynwyd:** Cynllunio i gyflenwi goleuadau sbar at flwyddyn nesaf
Darparu syniad o'r gost i ehangu goleuadau i ardaloedd ychwanegol yn y dref
**Diolchwyd a llongyfarchwyd yr aelod am ei holl waith caled ar y fenter yma.**

Hysbyseb drafft ar gyfer stasiwn Radio 'Pirate ' Dolgellau – Hyn ar waith

viii) **Y Cynghorydd Nia Evans** – Gwaith 'Lle yn y Dref' yn mynd o nerth i nerth. yma. **Llongyfarchwyd Nia** ar ei gwaith gyda'r fenter yma. £6400 mewn grant wedi ei dderbyn drwy Cyngor Gwynedd. Y Swm yma yn gyfrif y Llyfrgell Rhydd bellach . Pecynnau bwyd i unigolion addas / bregus am gael eu ddosbarthu, Nodwyd yr angen i benodi cydlynnydd cyflogedig i hybu y gwaith ac ymdrech Cymunedol . – Arian o'r Sir ar gael i hyn.

**Penderfynwyd:** I'r Cyng Nia Evans a Dyfrig Siencyn drafod y mater yma ymhellach

ix) **Y Cynghorydd Sion Edwards** – Cymeryd rhan yn Cystadleuaeth Chwarae Darts am 24 awr yn ystod cyfnod 'Movember', £600 wedi'w gasglu. Penawd cyntaf o gfres Sion ar Radio Cymru yn fuan.

x) **Y Cynghorydd Ray Peters** – Set Cyhoeddus yn Penybanc er cof am Phillip Jones angen sylw. Angen i aelodau i greu rhestr o seti sydd angen sylw.

xi) **Y Cynghorydd Peter Barnes** – Set gyhoeddus gyferbyn a gwesty Lemon Grass angen sylw. Cytunwyd i'r aelod wireddu hyn. Cwyn y bod gweddillion Ffynnon Fair ddim wedi cael sylw – Eglurwyd y bod gwaith gwirfoddol ar hyn am gymeryd lle yn y gwanwyn. Cystadleuaeth Ffenestri Nadolig busnesau wedi cymeryd lle. Safon y llinellau gwyn a melyn newydd ar hyd Ffordd y Gader o safon isel .
**Penderfynwyd:** Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i gwyno am hyn.

xii) **Y Cynghorydd John Raghoobar** – derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig yr uchod

xiii) **Y Cynghorydd John Cadwaladr**
Cyfarfod Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams, £71000 mewn grantiau wedi ei ddosbarthu yn ystod y flwyddyn

xiv) Y Cynghorydd Richard Jones - Nodwyd y bod angen yn y Gwaith gyda 'lle flwyddyn Newydd. syumud ymlaen I sicrhau braced I Bolion fflagiau y dref. Sawl Biniau Halen wedi diflannu dros y blynyddoedd diwethaf.

**Penderfynwyd:** Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i gwyno am hyn

xv) **Y Cynghorydd Jo Checkley** Cais i symud ymlaen ar sefydlu bracedi polion fflagiau newydd .Gwaith gyda 'lle yn y dref' a noson siopa hwyr / digwyddiad Dolig.Angen trefnu Cyfarfod o Ymddiriedolaeth y Marian - Hyn i'w drefnu ar gyfer Ionawr 2024. Diolchwyd i'r aelod a phawb am drefniadau y digwyddiad Dolig
**Penderfynwyd:** Oedi ar bracedi newydd am gyfnod, nes derbyn adborth. Cyflwynwyd yr angen i symud ymlaen gyda opsiynnau am hyn gan y Cyng Richatd Jones.

xvi) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** – Gwaith gwirfoddol o gasglu sbwriel. Camoliaeth wedi'w dderbyn o ymwelydd o Aberystwyth o berthynas i Parc y dref. Cais i geisio sefydlu biniau ailgylchu yn y Parc ?
**Penderfynwyd:** Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn.

**2 Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd – Y Cyng Dyfrig Siencyn**

Gweithgarwch 'lle yn y Dref' yn llwyddiant sylweddol
Materion Cyngor Gwynedd:
Safle Dolfeurig bellach wedi derbyn Caiatad cynllunio ar gyfer ail
Adeiladu
Sefyllfa ariannol pob prif Gyngor yng Nhymru yn fregus. Rhai
Cynghorau yn gwynebu S.114 ond nid Gwynedd ar y funud
Cyngor Gwynedd yn gwynebu bwlch o rhwng £8 - £11m ar hyn o
Ar y funud mae torriadau o £6m wedi ei adnabod
Cynydd yn y Treth Cyngor flwyddyn nesaf yn wir debyg
Yr opsiynnau bewidiadau yn y Gwasanaeth Tan am gael effaith
O ychwanegu un y cant i'r dreth cyngor
Mae rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd 2025 – 2027 yn sylweddol
Waeth gyda Llywodraeth San staeffan yn cwestiynnu pwrpas / rol
Prif Gynghorau, megis rhaglen trafodaeth i'r dyfodol o ' What are
We for?'
Bydd Fforum Ieuenctid i'r Sir yn cael ei drefnu yn fuan gyda'r
Amcan o ymgysylltu a chynnwys llais ieuenctid llawer mwy
Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol cyfrifoldeb Rhiant corfforaethol
I'r plant hynny sydd o dan warchodaeth y Cyngor
Cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 07.12.2023
Adolygiad ar y gweill parthed y model ethol 'Single Transferrable
Vote' gyda'r bwriad y bydd modd i Gynghorau unigol ddewis newid
Y drefn yma i'r dyfodol

**C63.2023/2024 GOHEBIAETH**

**Derbyniwyd yr ohebiaeth canlynol:**

1. **Cyngor Gwynedd, Uned Traffig**
   Llythyr yn gwahodd y Cyngor i gefnogi y bwriad i ymgynghori yn gyhoeddus ynglyn a'r posibilrwydd o newid y rheolau yn ymwneud a chynllun parcio preswyl i'r dyfodol yn dilyn gohebiaeth diweddar oddiwrth Cyngor Tref Dolgellau.
   **Penderfynwyd:** Trafod y mater yng nghyfarfod Mis Ionawr 2024 y Cyngor